



Polisi Gorfodaeth – Troseddau Amgylcheddol

Tîm Gorfodaeth Parcio Sifil ac Amgylcheddol

1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae **Gorfodaeth Amgylcheddol** yn flaenoriaeth gorfforaethol “Glân a Gwyrdd” ac, yn arbennig, mae Torfaen yn defnyddio dull “goddef dim” o ymdrin â throseddau’n ymwneud â:

- i. Taflu sbwriel
- ii. Cŵn yn Baeddu
- iii. Ardaloedd Gwahardd Cŵn
- iv. Ardaloedd Cŵn ar Dennyn

1.2 Ble mae’r troseddau uchod yn cael eu gweld, bydd Swyddogion Torfaen, fel cam cyntaf, yn rhoi hysbysiadau cosb benodedig (HCB) ar gyfer y troseddau uchod yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae’r hysbysiadau yma’n cynnig ffordd gyflym, weladwy ac effeithiol o ymdrin â throseddau amgylcheddol syml, lefel isel, a dewis amgen yn lle erlyniad.

1.2 Nid dirwy yw cosb benodedig. Mae talu’r tâl cosb yn rhyddhau’r sawl sy’n derbyn yr hysbysiad rhag cael euogfarn ar gyfer y drosedd y rhoddwyd y HCB amdani. Nid yw’n golygu cyfaddef trosedd, ond mae’n dileu’r posibilrwydd o greu cofnod o euogfarn droseddol.

1.2. Mae’r ddogfen bolisi hon yn amlinellu ffordd yr Awdurdod o ymdrin â rhoi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â’r Troseddau Amgylcheddol Uchod sydd hefyd yn destun gorfodaeth gan y Tîm Gorfodaeth Parcio Sifil ac Amgylcheddol ar y cyd. Mae hi hefyd yn amlinellu polisïau apeliadau ac erlyniadau’r Awdurdod mewn perthynas â’r troseddau uchod a sut fydd achosion o rwystro’n cael eu trin.

1.3. Nid yw Gorfodaeth Parcio Sifil yn cael ei gynnwys yn y ddogfen hon. Mae dogfen Gorfodaeth Parcio Sifil – Gorfodaeth Parcio ar gael ar wahân.

2.0 Sail rhoi HCB

2.1. Gall HCB gan ei roi dim ond pan fo gan swyddog reswm i gredu fod person wedi troseddu.

2.2. Fel arfer bydd troseddau sy'n arwain at HCB yn cael eu gweld yn uniongyrchol gan y swyddog. Serch hynny gall swyddog ystyried ei fod yn briodol roi HCB i droseddwr honedig ond nad ydyn nhw edi gweld y drosedd yn uniongyrchol, ond mae ganddyn nhw dystiolaeth uniongyrchol o drosedd neu dystiolaeth dibynadwy gan dyst.

2.3. Rhaid i unrhyw gyfweiliad a holi fod yn gyson ag arfer a gweithdrefnau Deddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Cod C.

3.0 Y Troseddwr

3.2. Dylid rhoi HCB dim ond pan fo digon o dystiolaeth o bwy ydyw a ble y mae e/hi'n byw.

3.3. **Os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn fodlon cydweithredu, gellir ystyried ymdrin â'r mater mewn ffordd arall** (e.e. erlyniad a/neu cynnwys yr heddlu). **Rhaid i HCBau gael eu rhoi i, a'u derbyn gan y sawl sydd dan amheuaeth.** Os yw troseddwr honedig yn gwrthod rhoi enw a chyfeiriad cywir, ond mae modd adnabod y sawl trwy ffyrdd eraill h.y. gan yr heddlu, dylai'r trosedd fel arfer gael ei herlyn, yn hytrach na thrwy HCB. O Ebrill 2006 mae hi wedi bod yn drosedd benodol i berson y mae swyddog yn bwriadu rhoi HCB sbwriel iddo/i, i fethu â rhoi eu henw a chyfeiriad i'r swyddog neu roi manylion ffug (gweler Adran 9).

3.4. Ni fydd HCB yn briodol:

1. Pan nad yw unigolyn yn ymddangos fe pe bai'n deall yr hyn sy'n cael ei gynnig (er enghraifft, os yw'r unigolyn yn fyddar). Os oes amgylchiadau o'r fath yn codi dylid gwneud pob ymdrech i gyfleu'r wybodaeth angenrheidiol.

2. Os yw ymddygiad y sawl sydd o dan amheuaeth yn awgrymu fod ganddyn nhw anawsterau dysgu neu anhwylder meddyliol. Mewn amgylchiadau o'r fath dylai'r swyddog ofyn i'w hun a yw rhoi HCB ac erlyn yn gam er lles cyhoeddus.

3. Os yw'r unigolyn yn ddinesydd tramor nad yw'n byw yn y wlad hon (h.y. nid yw'n Brydeinig nac o Ogledd Iwerddon), gan na fydd y HCB yn orfodadwy.

4. Os nad oes cyfeiriad boddhaol at ddibenion gorfodi. Gall hyn fod os yw'r swyddog yn credu bod yr unigolyn yn ddigartref neu'n cysgu ar y stryd.

5. Os yw troseddwr yn **fygythiol, yn ddifriol neu dreisgar** tuag at swyddog. Os yw troseddwr honedig yn troi'n ymosodol neu'n dreisgar, dylai'r swyddog ddiogelu ei hun a gofyn am gymorth gan yr heddlu. Byddai'r troseddwr yn cael ei erlyn, naill ai gan yr heddlu neu gan yr awdurdod. (Dylai'r swyddog gyfeirio at y canllawiau ar ymdrin â phobl dreisgar ac ymosodol).
- 3.5. *Efallai* na fydd HCB yn briodol yw'n yw'n hysbys bod gan yr unigolyn euogfarn neu rybudd blaenorol am y drosedd, neu y mae wedi cael nifer o HCBau, yn arbennig os na chawsant eu talu. Dylai'r swyddog hysbysu'r troseddwr y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gyda'r bwriad o'i erlyn.

4.0. Rhoi'r HCB

- 4.1. Bydd y Swyddog Gorfodi yn mynd at y troseddwr honedig, yn cyflwyno'i hun ac yn dweud wrth y person, mewn termau syml eu bod wedi cael eu gweld yn cyflawni trosedd. Bydd y Swyddog Gorfodi'n sicrhau ei fod ef/ei bod hi yn carion dogfennaeth adnabod a phrawf o'i (h)awdurdod, bydd Swyddog wedi gwisgo'n daclus ac mewn gwisg a ddarperir gan yr Awdurdod ac yn adnabyddadwy ohono. Bydd ef neu hi yn cyfathrebu mewn ffordd barchus, gytbwys.
- 4.2. Bydd y swyddog yn gofyn enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r troseddwr. Bydd y manylion yma'n cael eu gwirio cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol, a bydd y HCB yn cael ei roi wedyn. Gofynnir am dystiolaeth ddogfennol o enw a man preswyllo, ond ni fyddant y swyddog yn mynnu, a bydd hyn yn well na gwiriadau fel y gofrestr etholiadol. Gallai methu adnabod troseddwr cyn rhoi HCB arwain ac annilysrwydd yr orfodaeth. Gofynnir am gymorth yr heddlu ble bo'r angen. Rhaid i'r swyddog gofnodi, enw, cyfenw, cyfeiriad, cod post a dyddiad geni'r troseddwr ar y HCB. Mae angen y rhain at ddibenion prosesu.
- 4.3. Pan fo'r HCB yn cael ei roi, dylai'r swyddog esbonio ei fod yn rhoi cyfle i osgoi bod yn agored i erlyniad, a bydd yn tynnu sylw'r person i'r pwyntiau perthnasol ynglŷn â thalu ac erlyniad os na wneir taliad.
- 4.4. Os yw'r person naill ai'n gwrthod derbyn y HCB neu, ar ôl derbyn hysbysiad, nid yw'n talu cyn diwedd y cyfnod o ohirio gorfodaeth (14 diwrnod), danfonir llythyr atgoffa terfynol i roi saith diwrnod pellach o rybudd. Os na dderbynnir taliad o fewn saith diwrnod, gall hyn arwain at erlyn. Er mwyn sicrhau hygredd cynllun HCB, bydd pob achos yn ymwneud â methiant i dalu yn cael eu cyfeirio at yr adran Gyfreithiol gyda'r bwriad o erlyn.

5. Apeliadau

- 5.1 Unwaith bydd HCB wedi cael ei roi, gall y sawl sy'n derbyn benderfynu ffonio neu ysgrifennu i bledio lliniariad neu'r herio'r ffaith fod HCB wedi

ei roi. Bydd apelïadau'n cael eu trin mewn ffordd broffesiynol, gytbwys. Y Rheolwr Gorfodaeth Parcio Sifil ac Amgylcheddol fydd y Dyfarnwr.

5.2 Er mwyn cadw uniondeb y broses, ni ddylid dwyn unrhyw bwysau gormodol, naill ai gan aelodau'r Cyngor neu uwch swyddogion eraill, gyda'r bwriad ddylanwadu'n ormodol ar benderfyniadau trwy eu swyddogaeth yn unig. Disgwylir i Aelodau'r Cynulliad neu Aelodau Seneddol yn yr un ffordd i beidio a cheisio dylanwadu ar benderfyniadau.

5.3 Sail ar gyfer Apêl

Mae achosion ble gall apêl gael ei ystyried mewn ffordd ffafriol yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, achosion ble mae'r sawl a dderbyniodd yr hysbysiad o gosb benodedig yn gallu dangos:

- i. Ni chyflawnwyd trosedd, neu mae'r hysbysiad cosb benodedig wedi ei roi ar gam, er enghraifft os nad oedd gorchymyn gwarchod manau cyhoeddus (rheolaeth ar gŵn) yn berthnasol neu roedd gan y person eithriad yn ôl y gyfraith
- ii. Cyflawnwyd y drosedd gan rywun arall.
- iii. Nid bai'r sawl a gyflwynwyd gyda'r hysbysiad oedd y drosedd, a doedd dim byd y r oedden nhw'n gallu gwneud i atal y drosedd
- iv. Mae'r troseddwr o dan 18, neu mae ganddo/i broblemau iechyd corfforol neu feddyliol neu ryw anabledd arall sy'n eu rhwystro rhag deall eu bod wedi cyflawni trosedd.
- v. Mae gwybodaeth nad oedd ar gael pan roddwyd y HCB nawr ar gael a phenderfynir na gyflawnwyd y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi, neu na ddylai'r hysbysiad fod wedi cael ei roi i'r person a enwir yn yr hysbysiad.
- vi. Mae yna amgylchiadau esgusodol sylweddol a effeithiodd ar allu'r person i gydymffurfio â'r gyfraith
- vii. Ni ystyrir fod rhoi'r Hysbysiad yn briodol er lles cyhoeddus

5.4 Amgylchiadau pan na ystyrir apêl

- i. Anwybodaeth o'r gyfraith – y prawf fyddai a fyddai person rhesymol yn gwybod bod trosedd wedi digwydd. Mae yna rhai gofynion i arddangos hysbysiadau yn rhybuddio pobl ynglŷn â'r gyfraith, ond nid yw'r rhain yn berthnasol ymhob man nac ar gyfer pob deddfwriaeth. Does dim rhaid i hysbysiadau fod yn bresennol yn union ble cyflawnwyd trosedd.
- ii. Doedd unigolyn ddim yn gwybod fod trosedd wedi ei chyflawni – y prawf fyddai a fyddai person rhesymol wedi gwybod fod hynny wedi digwydd.
- iii. Ni allai unigolyn atal y drosedd – y prawf fyddai a fyddai person rhesymol wedi gallu cymryd camau i atal y drosedd thag digwydd.

- iv. Roedd y drosedd ond yn un fach – Mae Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu rhoi am droseddau llai difrifol gan fod hyn yn rhoi cyfle i osgoi mynd i'r Llys.
 - v. Maint y gosb – nid yw hyn yn berthnasol. Pennir y tâl gan yr Awdurdod yn unol â deddfwriaeth (gweler Adran 7, isod)
 - vi. Nid yw er lles cyhoeddus i fynd ar ôl y drosedd – mae angen i'r Awdurdod ymateb i bryderon ynglŷn â throreddoldeb lefel isel trwy sicrhau fod y gyfraith yn cael ei gweithredu. Mae'r defnydd o hysbysiadau cosb benodedig yn sicrhau dull rhagweithiol, cymesur o ymdrin ag ymddygiad troseddol.
- 5.5 Ar ôl penderfyniad apêl gan y Rheolwr Gorfodaeth Parcio Sifil ac Amgylcheddol Manager, gall apeliwr ofyn am un adolygiad pellach o'r penderfyniad gan y Prif Swyddog Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu ddirprwy) a/neu Aelod Gweithredol. Bydd y penderfyniad yn derfynol.
- 5.6 Bydd cyfle i herio'r drosedd honedig a phledio'n ddieuog yn parhau i fod yn agored i'r sawl sy'n derbyn y HCB os yw ef neu hi'n dewis gwneud hynny, neu os nad yw'r gosb yn cael ei thalu. Bydd y mater yn cael ei drin gan Lys yr Ynadon. Pan fo troseddau'n cael eu herlyn bydd yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn asesu pob achos ar sail teilyngdod ac yn cynghori'r rheolwyr gwasanaeth perthnasol p'un ai i ddechrau achos cyfreithiol ai peidio. Fel rheol gyffredinol, ni roddir rhybuddion syml yn lle erlyniad.
- 5.7 Mae'r atodiad ar ddiwedd y ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r broses gorfodi mewn siart llif.
- 5.8 Ni dderbynnir talu cosb benodedig trwy randaliadau.

6. Rhoi Hysbysiadau o Gosb Benodedig i Bobl Ifanc dan 18 oed

Polisi

- 6.1 Ni fydd hysbysiadau o gosb benodedig yn cael eu rhoi i bobl ifanc am daflu sbwriel a throreddau rheolaeth ar gŵn. Serch hynny bydd pobl ifanc sy'n troseddu yn cael rhybudd ar lafar mewn ffordd gytbwys ac addysgol. Os yw hynny'n briodol, bydd swyddogion yn ymgysylltu ag ysgolion lleol, colegau a sefydliadau tebyg eraill pan fo troseddau'n cael eu cyflawni gan bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau hynny, mewn ymgais i hyrwyddo blaenoriaethau Glân a Gwyrdd yr Awdurdod a newid perthnasol mewn ymddygiad.

7.0 Swm y Gosb Benodedig

- 7.1. Mae'r [Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol \(Cosbau Penodedig\) \(Darpariaethau Amrywiol\) \(Cymru\) 2008](#) a'r [Ddeddf Ymddygiad](#)

[Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014 adran 68](#) yn galluogi'r Awdurdod i bennu swm rhai cosbau penodedig. Mae'r tabl isod yn gosod allan y symiau presennol ar gyfer cosbau penodedig yn Nhorfaen.

Trosedd	Cosb Bresennol	Cosb â Gostyngiad
Taflu sbwriel	£100	Ni chaniateir
Baw Cŵn	£100	Ni chaniateir
Mannau Gwahardd Cŵn	£100	Ni chaniateir
Mannau Cŵn ar Dennyn	£100	Ni chaniateir

8. Troseddau Cosb Benodedig a Chanllawiau Penodol

8.1 Dylid cyfeirio at y statudau sy'n creu troseddau yn ogystal â'r canllaw hwn. Fel mewn unrhyw faes o orfodaeth, mae'n hanfodol fod swyddogion yn ymwybodol o'u pwerau o dan y statudau perthnasol.

8.2 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Adran 87 – Taflu sbwriel

- i Mewn achosion o daflu sbwriel, y cam arferol fydd cynnig HCB, a bwrw bod yr unigolyn yn cydweithredu. Mae'r drosedd o dan a.87 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i diwygiwyd yn 2005, yn berthnasol i bob man sydd yn yr awyr agored, gan gynnwys tir agored preifat a thir sydd o dan ddŵr. Nid yw person yn cyflawni trosedd o daflu sbwriel os ydyn nhw'n gadael sbwriel ar eu tir eu hunain neu os oes ganddyn nhw ganiatâd y perchennog i adael sbwriel.
- ii Nid yw **Sbwriel** yn cael ei ddiffinio, ond **mae'n cynnwys** caniau, poteli, papurau losin, cynwysyddion bwyd a diod, gwm cnoi, bagiau plastig, derbynebaw o diliau, gweddillion bwyd, gweddillion sigarennau a sigarau a thafenni.
- iii Rhaid fod y swyddog awdurdodedig fod yn fodlon fod dwy elfen o'r drosedd wedi eu cyflawni, sef bod person wedi taflu, gollwng neu ddyddodi mewn ffordd arall unrhyw sbwriel, ac wedi ei adael. Cyflawnir y drosedd pan fo person yn diosg rhywbeth y fwriadol (e.e. yn rhoi potel gwag ar wal, yn taflu tocyn bws, yn poeri gwm, yn tynnu brechdan allan o fag ac yn gollwng y bag, neu'n taflu can i'r stryd) ac yn cerdded i ffwrdd. Gellir profi'r drosedd hefyd ar sail ymddygiad person (h.y. torri neu grensian rhywbeth a'i daflu tra'u bod mewn rhes o bobl a ddim gwneud unrhyw ymdrech i'w gasglu mewn amser nodedig), neu rywle â ffens neu o gar neu bont).
- iv Nid yw'r drosedd yn dibynnu ar unrhyw ofyniad i ofyn i berson sydd wedi gollwng sbwriel, i'w godi. Serch hynny, pan ei fod yn ymddangos fod rhywun wedi gollwng rhywbeth trwy amryfusedd, neu nid yw'r swyddog yn gallu casglu'n rhesymol fod y sbwriel wedi ei adael, dylai

ef/hi ystyried gofyn i'r person i'w godi. Os yw'r person yn gwrthod, byddai hynny'n golygu ei fod wedi ei adael, a byddai sail wedyn i roi HCB.

- v Pan fo'r sbwriel yn cael ei daflu/waredu o gerbyd ac nid yw'r troseddwr yn cael ei drin ar y pryd (h.y. am fod y cerbyd yn symud), bydd enw'r ceidwad cofrestredig yn cael ei hel gan y DVLA. Bydd hysbysiad Adran 108 (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn cael ei ddanfon at y ceidwad cofrestredig. Caiff HCB ei ddanfon trwy'r post wedyn os oes modd adnabod yr unigolyn a adawodd y sbwriel, e.e. trwy ddelwedd CCTV, adnabyddiaeth weledol, cyfaddefiad neu ddatganiad gan y ceidwad (gan gofio nad oes modd gorfodi cymar person i roi tystiolaeth). Efallai bydd achosion mwy difrifol o daflu sbwriel fel malu poteli gwydr yn fwy priodol i'w trin trwy wŷs.

8.3 Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus – Troseddau Rheolaeth ar Gŵn

- i Yn Rhagfyr 2018 cyflwynodd yr Awdurdod Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus a greodd tair trosedd newydd o fewn ardal yr Awdurdod. Mae'r cyntaf yn ymwneud â methu a chodi baw ci yn syth o dir agored ble mae gan y cyhoedd hawl mynediad. Nid yw gofynion y drosedd yma'n berthnasol i'r rheiny sydd wedi eu cofrestru'n ddall neu sydd â nam ar eu golwg, y rheiny sydd ag anabledd sy'n effeithio ar eu symudedd, medrusrwydd â llaw, cydlyniad corfforol neu allu i godi, cario neu symud mewn ffordd arall pethau pob dydd. Hefyd, ni fyddai person yn euog o drosedd os oedd ganddyn nhw esgus resymol neu ganiatâd perchennog y tir i ymddwyn felly ar y tir.
- ii Yr ail yw trosedd gwahardd cŵn ac mae'n creu trosedd o fynd â chŵn i dir a nodir fel man gwahardd. Eto ni fyddai person yn euog o drosedd os oedd ganddyn nhw esgus rhesymol neu ganiatâd perchennog y tir i ymddwyn felly ar y tir the person ac nid yw gofynion gwahardd y Gorchymyn yn berthnasol i gi a hyfforddir gan elusen gofrestredig i gynorthwyo person ag anabledd ac y mae person anabl yn dibynnu arno am gymorth. Mae manau gwahardd wedi bod yn destun ymgynghoriad helaeth ac maen nhw ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod.
- iii Y drydedd drosedd yw honno o beidio cadw ci ar dennyn ar dir a nodir fel man cŵn ar dennyn o dan y Gorchymyn. Eto, ni fyddai person yn euog o drosedd os oedd ganddyn nhw esgus resymol neu ganiatâd perchennog y tir i ymddwyn felly ar y tir. Mae manau a ddynodwyd fel manau cŵn ar dennyn wedi bod yn destun ymgynghoriad helaeth ac maen nhw ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod. Does dim yn y Gorchymyn sy'n berthnasol i weithgareddau arferol ci gwaith, tra bod y ci'n gweithio.

- iv Nid yw peidio â bod yn ymwybodol fod ci wedi carthu yn amddiffyniad. Ystyrir fod person sydd fel arfer â chi yn eu meddiant yng ngofal y ci ar unrhyw adeg oni bai bod person arall â gofal am y ci ar yr adeg honno. Felly, gellir rhoi HCB i berchennog neu denant y tŷ mewn achos ci ar grwydr.

9. Ymdrin â throsteddwr sy'n gwrthod rhoi manylion neu sy'n rhoi manylion ffug

9.1 Bydd trosteddau sy'n golygu rhwystro swyddogion fel arfer yn cael eu herlyn. O ran trosteddau cosb benodedig, dylai swyddogion nodi'r canllawiau canlynol:

- i Os yw'r trosteddwr yn gwrthod rhoi manylion neu'n rhoi manylion ffug, ond mae'n rhoi manylion cywir ar ôl derbyn rhybudd, neu cyn i'r heddlu gyrraedd – ystyrir ei fod yn briodol cynnig a rhoi HCB
- ii Os yw'r trosteddwr yn rhoi manylion cywir dim ond ar ôl i swyddog yr heddlu ofyn iddo wneud – dylid rhoi adroddiad ar gyfer gwŷs ar gyfer y drosedd wreiddiol ac am drosedd o fethu â rhoi manylion/rhoi manylion ffug (os yw hynny'n briodol).
- iii Os yw'r trosteddwr yn gwrthod rhoi manylion ac yn cerdded i ffwrdd – ble bynnag y mae hynny'n briodol, dylai'r Swyddog Gorfodaeth alw'r Heddlu a dilyn y trosteddwr am gyfnod rhesymol o amser neu tan bydd yr Heddlu'n cyrraedd.
- iv Os yw'r trosteddwr yn rhoi manylion ffug/anghywir, a bod y HCB yn cael ei roi ar adeg y drosedd ac yn cael ei dalu wedyn – ni fydd camau pellach o ran rhoi manylion ffug gan nad yw'r trosteddwr wedi gwrthod y drosedd ac mae'r HCB wedi cael ei dalu.
- v Os yw'r trosteddwr yn rhoi manylion ffug/anghywir, a bod y HCB yn cael ei roi ar adeg y drosedd ac yna ddim yn cael ei dalu, yna dylid danfon adroddiad i'r trosteddwr gael ei wysio am y drosedd wreiddiol a'r drosedd o roi manylion ffug (ble mae hynny'n briodol).

10.0 Y Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol

Mae cwynion ynglŷn â'r gwasanaeth (e.e. mewn perthynas ag ymddygiad swyddogion) yn cael eu trin yn unol â pholisi cwynion corfforaethol yr Awdurdod. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan yr Awdurdod www.torfaen.gov.uk.

Diwedd

Atodiad – Siart Llif Gorfodaeth Amgylcheddol

